**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

**Dyddiad:** 28 Mai 2002

**Amser:** 9:30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Lorraine Barrett | (Llafur) |
| Glyn Davies | (Ceidwadwyr) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Delyth Evans | (Llafur) |
| John Griffiths | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| D Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**: Dim

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi: LEG-13-2002 (min)**

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai 2002.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau bod dirprwyaeth o'r Pwyllgor Sefydlog ar Gynulliad Deddfwriaethol Ontario wedi ymweld â'r Pwyllgor ar 5 Mawrth 2002. Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau ymhellach fod y Pwyllgor bellach wedi derbyn llythyr wrth Gadeirydd y Pwyllgor a oedd yn ymweld Ms MARGARET MARLAND yn diolch i aelodau a swyddogion y Pwyllgor Deddfau am drefnu trafodaeth gyda hwy.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

**LC482 – Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2002**

3.1 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflym.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC482 (Adroddiad).

**LC491 – Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) (Cymru) 2002**

3.4 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC491 (Adroddiad).

**LC492 – Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002**

3.7 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Safonol.

3.8 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, cytunodd yr Aelodau nad oedd unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5.

- Oherwydd ei bod yn ymddangos na chafwyd unrhyw amheuaeth ynglyn ag effaith fwriadedig y canllawiau a bod y Gweinidog wedi methu â mynd i'r afael â'r mater hwn yn arbennig, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu llythyr yn gofyn am eglurder. **Gweithredu: Ymgynghorydd Cyfreithiol/Clerc.**
- Roedd angen eglurhad pellach ar Adran 59(2)(b). O ganlyniad, gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i Adran 59(2)(b).
- Roedd angen eglurhad pellach ar Adran 62. Holwyd a oes gan y Cynulliad y pwerau i wneud y cynnig hwn. O ganlyniad, gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i Adran 62.
- Roedd Adran 65(3) yn cynnwys gwall drafftio y gellid ei gywiro yn y fersiwn argraffedig. O ganlyniad, gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i Adran 65(3).

- Roedd angen eglurhad pellach ar Adran 74(1). O ganlyniad, gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i Adran 74(1).

3.9 Felly, cytunodd y Pwyllgor i weithredu'r weithdrefn a nodir yn Rheol Sefydlog 11.4. Yn ôl y Rheol Sefydlog, cyn hysbysu'r Cynulliad y dylai roi sylw arbennig i unrhyw ddeddfwriaeth, dylai'r Cadeirydd, fel cam cyntaf, hysbysu'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol o fwriad y Pwyllgor i wneud yr hysbysiad hwnnw a rhoi'r cyfle i'r Ysgrifennydd Cynulliad ymateb naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig.

**LC493 - Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2002**

3.10 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Safonol.

3.11 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, cytunodd yr Aelodau bod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5.

- Roedd angen eglurhad pellach ar A.3(4)(b). O ganlyniad, gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i A.3(4)(b).
- Roedd angen eglurhad pellach ar A.2(4). O ganlyniad, gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i A.2(4).

3.12 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC493 (Adroddiad).

**LC486 – Gorchymyn Iechyd Planhigion (Phytophthora ramorum) (Cymru) 2002**

3.13 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.14 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.15 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC486 (Adroddiad).

**LC487 – Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) 2002**

3.16 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.17 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5

- Ymddengys fod Erthygl 2(1)(b) yn ddiffygiol oherwydd dylid fod wedi ychwanegu'r diffiniad o "offer" fel diwygiad yn y prif Orchymyn.

3.18 Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig er mwyn gosod y cywiriad angenrheidiol yn fersiwn cyhoeddedig y Gorchymyn.

3.19 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC487 (Adroddiad).

**LC488 – Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2002**

3.20 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.21 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.22 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC488 (Adroddiad).

**LC489 – Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002**

3.23 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.24 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.25 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC489 (Adroddiad).

**LC490 – Gorchymyn Adnabod a Symud Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Dirymiad) 2002**

3.26 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.27 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad.

3.25 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC490 (Adroddiad).

**Eitem 4: Gohebiaeth y Pwyllgor**

**Llythyr oddi wrth Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, dyddiedig 8 Mai 2002**

**LC466 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002**

4.1 Nododd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn ymateb i'w lythyr dyddiedig 9 Mai 2002 a anfonwyd at Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar **Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002.** Ystyriodd y Pwyllgor fod y Rheoliadau yn adroddadwy o dan Reol Sefydlog 11.5 am y rhesymau canlynol:

- Roedd angen eglurhad pellach ar y term "ardal". O ganlyniad, gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r term hwn.
- Roedd Rheoliad 19(3) yn cynnwys gwall drafftio. O ganlyniad, gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i Reoliad 19(3).
- Roedd Rheoliad 27(3)(b) yn cynnwys gwall drafftio y gellir ei gywiro pan gaiff y Rheoliadau eu diwygio y tro nesaf. O ganlyniad, gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i Reoliad 27(3)(b)
- Roedd angen eglurhad pellach ar Reoliad 31. Derbyniwyd hwn gan y Gweinidog. O ganlyniad, derbynnir nad oes unrhyw bwynt cofnodi yn codi mewn perthynas â rheoliad 31.

4.2 Gwnaeth y Pwyllgor 2 sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn yr adroddiad.

**Eitem 5: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

5.1 Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor am y drafodaeth gyda chynrychiolwyr Theatr Fforwm Cymru a gynhaliwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 21.05.02. Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau o gynnig Theatr Fforwm Cymru y byddai grwp o AC yn cael eu gwahodd i gymryd rhan ym mhrosiect AGORA i'w gynnal dros dri diwrnod o 26ain i 28ain Mehefin 2002.

5.2 Hysbysodd Lorraine Barrett y Pwyllgor fod aelodaeth y blaid Lafur yn debygol o newid ac y byddai aelodau newydd yn mynychu'r cyfarfod nesaf yn ei lle hi, sef Delyth Evans a John Griffiths.

5.2 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 11 Mehefin 2002.